# Cymru Oes yr Haearn

## Duwiau a Rhyfel



Noddir gan Llywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Cyflwyniad

Yn y llyfr hwn fe gewch chi flas ar Gymru Oes yr Haearn a bywyd bob dydd y Celtiaid trwy gyfrwng casgliadau Amgueddfa Cymru.

Cynlluniwyd y llyfr i chi ddewis a dethol eich themâu:



1. **Celf**
2. **Crefydd**
3. **Llwythau**
4. **Rhyfelwyr**
5. **Gorchest Rhufain**
6. **Amgeuddfa Cymru**





# Celf



# Celf Geltaidd

Enw archaeolegwyr am gelf Celtaidd Ewrop yn Oes yr Haearn yw celf '**La Tene**'. Roedd celf La Tene yn defnyddio siapau o fyd natur ac yn aml yn llifo fel afon. Mae'n dangos i ni sut oedd y bobl yn gweld y byd.



Gwrthrych efydd o harnais ceffyl o ddiwedd Oes yr Haearn neu ddechrau'r cyfnod Rhufeinig-Brydeinig. O Wersyll Maindy, Cwm Parc. Enamel yw'r siapau coch a melyn.






Gwrthrych efydd o harnais ceffyl o ddiwedd Oes yr Haearn. O Maescar, Powys. Enamel yw'r siapau coch.



Gwrthrych efydd o harnais ceffyl o ddiwedd Oes yr Haearn neu ddechrau'r cyfnod Rhufeinig. O Pen-yr-Allt, Felin Fach. Enamel yw'r siapau coch.



Tered efydd gydag enamel coch o ddiwedd Oes yr Haearn. O'r Garth Fach, Pentyrch. Dolen ar flaen cerbyd rhyfel oedd tered i gadw'r awennau yn syth.



Gwrthrych efydd o harnais ceffyl o ddiwedd Oes yr Haearn neu ddechrau'r cyfnod Rhufeinig. O Langstone, Casnewydd. Enamel yw'r siapau glas.



Gwrthrych efydd o harnais ceffyl o ddiwedd Oes yr Haearn. O Alltwen, Castell-nedd. Enamel yw'r marciau coch.

# Troellau

Mae troell yn symbol cyffredin iawn mewn celf Geltaidd. Mae'r **trisgell** – sef tri troell yn un – i'w weld ar lawer o wrthrychau o Oes yr Haearn.

Dydyn ni ddim yn gwybd beth yw ystyr y trisgell. Efallai ei fod yn sefyll am:

- **Eni, Bywyd a Marwolaeth**
- **Y Byw, y Marw, a'r Duwiau**
- **Daear, Tân, Dŵr**
- **Tri Duw**

**Beth yw eich barn chi?**



Iron Age shield boss with triskele symbol. Found in Tal-y-Llyn, Gwynedd.



Straeniwr efydd o Oes yr Haearn gyda symbol trisgell. O Langstone, Casnewydd.



Plac efydd o Oes yr Haearn gyda symbol trisgell. O fryngaer Moel Hiraddug, Sir Ddinbych.



Plac efydd o Oes yr Hearn gyda symbol trisgell. O Llyn Cerrig Bach, Ynys Môn.



Placiau efydd o Oes yr Haearn gyda symbolau troellau. O Llyn Cerrig Bach, Ynys Môn.

# Anifeiliaid mewn Celf

Roedd anifeiliaid yn gyffredin yng nghelf diwedd Oes yr Haearn. Roedd natur yn bwysig i bobl. Byddai **ychen** a **gwartheg** yn anifeiliaid fferm pwysig yn darparu cig a llaeth. Byddai baeddod yn darparu cig hefyd, a **gwenyn** yn creu mêl. Byddai **ceffylau** yn bwysig i filwyr fyddai'n eu marchogaeth i ryfel.



Baedd efydd o Oes yr Haearn.
O Gaer Fawr, y Trallwng.
O grib helmed o bosib.






Ceffyl efydd o ddiwedd Oes yr Haearn.
O Pentwyn-mawr, Trecelyn.



Dolen powlen efydd gydag addurn enamel o ddiwedd Oes yr Haearn. O Cwm Beudy Mawr, Gwynedd. Pen cath yw'r addurn o bosib.



Brigwn Oes yr Haearn. O Gapel Garmon.
Efallai taw pen tarw yw'r addurn.



Gwenynen efydd gydag enamel coch o ddiwedd Oes yr Haearn. O Langstone, Casnewydd. Roedd  wenynen yn rhan o ddolen powlen efydd.

# Wynebau mewn Celf

Mae pennau dynion yn addurno dau blac o ddiwedd Oes yr Haearn. Mae'r placiau o ddwy darian, gyda dau wyneb y naill ben. Dydyn ni ddim yn gwybod pennau pwy ydyn nhw.






Late Iron Age brass plaques.
Found at Tal-y-llyn, Gwynedd.



Crefydd

# Derwyddon

Roedd y derwyddon yn bobl bwysig iawn – fersiwn Oes yr Haearn o **offeiriad**, **doctor**, **barnwr** a **gwleidydd**. Roedd pobl yn credu y gallai'r derwyddon siarad â duwiau ac ysbrydion. Dywedodd y Rhufeiniaid fod y derwyddon yn **aberthu anifeiliaid** a **dynion** mewn coedwigoedd sanctaidd. Roedd y Rhufeiniaid yn credu bod y derwyddon yn beryglus, ac yn bwysig i drefnu rhyfel.



**Oedd y Rhufeiniaid yn dweud y gwir am y derwyddon?**




# Rhoddion i'r Duwiau

Yn Oes yr Efydd ac Oes yr Haearn byddai gwrthrychau metel gwerthfawr yn cael eu gadael o dan ddŵr. Mae archaeolegwyr yn credu taw **rhoddion i'r duwiau** oedd y rhain. Efallai bod pobl yn credu bod dŵr yn ddrws i fyd arall y duwiau a'r ysbrydion.



Rhoi rhoddion i'r duwiau, diwedd Oes yr Efydd neu ddechrau Oes yr Haearn, o Llyn Fawr, Cwm Cynon.





Gwrthrychau efydd a haearn, diwedd Oes yr Efydd neu ddechrau Oes yr Haearn, o Llyn Fawr, Cwm Cynon.




Gwrthrychau efydd a haearn a daflwyd i Llyn Cerrig Bach, Ynys Môn. Mae archaeolegwyr yn credu bod y gwrthrychau yn y llyn am 300 mlynedd olaf Oes yr Efydd.

# Adlewyrchiad Hud

Roedd y drych yn wrthrych pwysig a gwerthfawr yn oes yr Haearn. Wrth gladdu drych, byddai'n cael ei lapio'n ofalus mewn bag lledr i'w warchod.

Mae'n bosib bod y drych yn wrthrych crefyddol. Fel dŵr, mae drych yn adlewyrchu. Roedd pobl Oes yr Haearn yn credu fod adlewyrchiad yn dangos y byd arall. Efallai eu bod nhw wedi defnyddio drychau i siarad â duwiau ac ysbrydion.







Drych efydd o ddiwedd Oes yr Haearn neu ddechrau cyfnod y Rhufeiniaid. O gaer Rufeinig Aberhonddu.

# Anifeiliaid Sanctaidd

Yn niwedd oes yr Haearn dywedodd Iŵl Cesar fod y Brythoniaid yn gwrthod bwyta **ieir**, **sgwarnogod** a **gwyddau** am ei fod yn groes i'w crefydd.

Dywedodd yr awdur Rhufeinig, Dio, fod y Brythoniaid yn defnyddio sgwarnogod fel negeswyr y duwiau.






# Beddau

Does dim llawer o feddau Oes yr Haearn wedi eu canfod yng Nghymru. Mae ansawdd y pridd mewn rhannau o Gymru yn golygu bod sgerbydau yn diflannu ar ôl amser hir. Heb dystiolaeth, all archaeolegwyr ddim dweud yn bendant beth ddigwyddodd i gyrff pobl ar ôl cael marw.


Mae'r beddau o Oes yr Haearn sydd wedi eu canfod yn aml yn cynnwys gwrthrychau gwerthfawr. **Nwyddau claddu** yw enw archaeolegwyr am y rhain. Pobl bwysig fyddai'n cael eu claddu â gwrthrychau gwerthfawr.

Gall nwyddau claddu adrodd hanes y person yn y bedd. Efallai fod pobl Oes yr Haearn yn credu y gallai'r gwrthrychau gael eu defnyddio yn y **byd nesaf**.



Replica o feddrod posib rhyfelwr Celtaidd, petai'n cael ei ganfod gan archaeolegydd.

# Llwythau


Octapitai
Demetiaid
Gangani
Ordofigiaid
Silwriaid
Dobunni
Deceangli
Cornofiaid

# Llwythau ac Arweinwyr

Doedd dim gwlad o'r enw Cymru yn Oes yr Haearn. Roedd y bobl oedd yn byw ym Mhrydain wedi'u rhannu'n llwythau. Ar ddiwedd Oes yr Efydd fe ysgrifennodd y Rhufeiniaid am frenhinoedd a breninesau rhai o'r llwythau.

Ond wnaeth y Rhufeiniaid ddim enwi unrhyw arweinwyr yng Nghymru. Mae'n bosib bod gan y llwythau yng Nghymru fwy nag un arweinydd, nid un brenin neu frenhines.






Ceiniog aur o ddiwedd oes yr Haearn. O Gwmbrân. Cafodd ei bathu gan lwyth y Dobunni ond ei ganfod ar dir y Silwriaid. Arni mae'r gair 'Ante' – stamp Antedios, brenin y Dobunni. Arni hefyd mae ceffyl tair cynffon, olwyn cerbyd rhyfel, lleuad a sêr.

# Llwythau

Y Rhufeiniaid ysgrifennodd y dystiolaeth am lwythau Prydain. Y tri prif awdur oedd Tacitus, Ptolemy a Dio. Dim ond am lwythau diwedd oes yr Haearn mae nhw'n siarad.



**Mona**

Dyma oedd hen enw Ynys Môn. 'Mynydd' yw ystyr Mona.

Roedd Ynys Môn yn lle pwysig i'r Derwyddon.

Disgrifiodd Tacitus frwydr rhwng y Derwyddon a'r Rhufeiniaid yn OC 60. Ar ôl ennill, fe ddinistriodd y Rhufeiniaid goedwig sanctaidd y Derwyddon.

**Silwriaid**

Roedd Tacitus yn credu bod y Silwriaid yn dod o Sbaen oherwydd eu croen tywyll a'u gwallt du cyrliog.

Dywedodd Tacitus fod y Silwriaid yn rhyfelwyr ffyrnig, a pa mor anodd oedd eu hymladd nhw. Dyma nhw'n parhau i ymladd y Rhufeiniaid nes cael eu curo yn OC 74.



# Llwythau

## Gangani


Enw Ptolemy ar Benrhyn Llŷn oedd ‘penrhyn y Gangani’.

Dydyn ni ddim yn gwybod rhyw lawer am y Gangani. Ysgrifennodd Ptolemy am lwyth Gangani yn Iwerddon. Efallai eu bod nhw’n perthyn.

## Octapitai

Nid yw’r Rhufeinaid yn sôn am y llwyth hwn. Ysgrifennodd Ptolemy am le o’r enw **OCTAPITARUM PROMONTORIUM**, sef yr enw’r Rhufeinaid am Benrhyn Dewi.

Mae rhai haneswyr ac archaeolegwyr yn defnyddio’r enw Octapitai.



## Ordofigiaid

‘Ymladdwyr morthwyl’ yw ystyr Ordofigiaid. Fe ymladdon nhw gyda Caradog a’r Silwriaid yn erbyn y Rhufeiniaid yn OC 48-51.

Dyma nhw’n parhau i ymladd y Rhufeiniaid nes cael eu curo yn OC 78.

## Demetiaid


Nid yw Tacitus yn sôn am y Demetiaid. Dywedodd Ptolemy bod eu prifddinas yn **MORIDINUM**, sef yr enw Rhufeinig am Gaerfyrddin. Soniodd hefyd am **LUENTINUM**, sef Mwynglawdd Aur Dolaucothi ger Pumsaint.

# Llwythau

## Deceangli

Dydyn ni ddim yn gwybod rhyw lawer am y llwyth yma. Mae darnau o blwm gydag ysgythriad '**DECEANGL**' wedi'i canfod yng Nghaer.

Dywedodd Tacitus i'r Rhufeinaid drechu llwyth y 'Decangos' yn OC 48. Rydyn ni'n credu taw dyma lwyth y Deceangli.



## Cornofiaid

Daw'r enw yma o'r gair Brythonig a Chymraeg 'corn'. Mae rhai haneswyr yn awgrymu eu bod yn addoli duw gyda chyrn ar ei ben.

Dyweddodd Ptolemy bod eu prifddinas yn **VIROCONIUM CORNOVIORUM**, sef yr enw Rhufeinig am Wroxeter.

## Dobunni

Dywedodd Dio fod y 'Bodunni' wedi derbyn grym y Rhufeiniaid heb ymladd.

Dywedodd Ptolemy bod eu prifddinas yn **CORINIUM**, sef yr enw Rhufeinig am Cirencester.



Roedd rhai llwythau yn masnachu â'i gilydd, ond doedd pawb ddim yn ffrindiau. Roedd rhai llwythau yn elynion fyddai'n ymladd ei gilydd am dir a phŵer.



Rhyfelwyr

# Rhyfelwyr

Roedd rhyfelwyr yn gwarchod pobol eu llwyth. Cyn dyfodiad y Rhufeiniaid bydden nhw’n ymladd rhyfelwyr llwythau eraill.

Roedd rhyfelwyr yn bwysig iawn ym Mhrydain Oes yr Haearn. Roedd eu hoffer yn werthfawr, a llawer o amser yn cael ei roi i addurno’r offer.



Cleddyf haearn o ddiwedd Oes yr Haearn. O Llyn Cerrig Bach, Ynys Môn. Cafodd ei blygu’n fwriadol fel rhodd i’r duwiau.



Cleddyf o ddechrau - canol Oes yr Haearn gyda dolen asgwrn neu gorn carw. O Twyn-y-Gaer, Cwm-iou.



Dagr o ddiwedd Oes yr Haearn. O Llyn Cerrig Bach, Ynys Môn.



Cleddyf o ddechrau Oes yr Haearn.
O Llyn Fawr, Cwm Cynon.



Pennau gwaywffyn haearn o ddiwedd Oes yr Haearn. O Llyn Cerrig Bach, Ynys Môn.



Both tarian efydd o ddiwedd Oes yr Haearn o Llyn Cerrig Bach, Ynys Môn.



Darnau o darian fetel o Oes yr Haearn.
O Tal-y-Llyn, Gwynedd.
Y both yw'r plât metel yn y canol.



Both tarian efydd o Oes yr Haearn. O fryngaer Moel Hiraddug, Sir Ddinbych.



Replica o helmed posibl o ddiwedd Oes yr Haearn. Wedi'i seilio ar ddarnau efydd o fferm Tŷ-tan-y-Foel, Cerrigydrudion.



Y darnau efydd gwreiddiol a ysbrydolodd yr helmed replica. O fferm Tŷ-tan-y-Foel, Cerrigydrudion.

# Cerbydau Rhyfel

Pa fath o wrthrychau fydd archaeolegwyr yn eu canfod?






**Teiar** Oes yr Haearn. Bar metel oedd yn gwarchod yml olwyn bren.





**Genfa** efydd a haearn o ddiwedd Oes yr Haearn. Bydd y ceffyl yn cnoi ar yr enfa a'r awennau yn cael eu clymu i'r dolenni. Bydd y gyrrwr yn tynnu'r awennau i'r chwith neu'r dde i droi pen y ceffyl a'i orfori i droi.



**Pin echel** haearn Oes yr Haearn. Byddai hwn yn cael ei daro drwy ben yr echel i ddal yr olwyn ar y cerbyd.

# Cerbydau Rhyfel

Pa fath o wrthrychau fydd archaeolegwyr yn eu canfod?



**Tered** efydd o ddiwedd Oes yr Haearn. Byddai dolen dered yn cael ei gosod ar drawst pren o'r enw **iau**. Byddai'r iau yn sownd i'r cambren, a'r awennau'n pasio drwy'r tered i'w cadw'n syth.



**Cap echel** o ddiwedd Oes yr Haeran neu ddechrau cyfnod y Rhufeiniaid. Yr **echel** yw'r pren mae'r olwyn yn sownd iddi. Addurn i roi ar ben yr echel yw'r cap.





**Uniad strapiau** o ddiwedd Oes yr Haearn neu ddechrau cyfnod y Rhufeiniaid. Byddai hwn yn cysylltu gwahanol strapiau harnais lledr y ceffyl.



**Cambren** o ddiwedd Oes yr Haearn. Dyma'r polyn sy'n cysylltu'r cerbyd i'r ceffylau. Mae'r gwrthych o'r pen agosaf at y ceffylau.

# Ceffylau

Roedd ceffylau yn bwysig iawn i ryfelwyr. Byddai rhai rhyfelwyr yn gyrru **cerbydau rhyfel** i faes y gad. Ceffylau fyddai'n tynnu'r cerbydau. Byddai rhyfelwyr eraill yn marchogaeth i ryfel ar eu ceffylau.

Roedd offer ar geffylau a cherbydau yn aml wedi eu haddurno ag **enamel** – math o wydr lliwgar.






Uniad strap a chloch o ddiwedd Oes yr Haearn neu ddechrau y cyfnod Rhufeinig. O Wersyll Maindy, Cwm Parc.



Uniad strap efydd ac enamel o ddiwedd Oes yr Haearn. Replica ar y chwith a'r gwreiddiol ar y dde. O Flaendulais, Castell-nedd.



Genyn replica efydd o ddiwedd Oes yr Haearn. Y gwreiddiol o Flaendulais, Castell-nedd.



Tered efydd ac enamel o ddiwedd Oes yr Haearn. Replica ar y chwith a'r gwreiddiol ar y dde. O Flaendulais, Castell-nedd.



Replica o gerbyd rhyfel Oes yr Haearn. Mae'r ffotograff yn dangos yr olwyn bren gyda phin drwy'r echel.



Replica o gerbyd rhyfel Oes yr Haearn. Mae'r ffotograff yn dangos teredau ar ben yr iau



Replica o gerbyd rhyfel Oes yr Haearn. Mae'r ffotograff yn dangos teredau ar ben yr iau.




Model replica bach o gerbyd rhyfel Oes yr Haearn.

# Gorchest Rhufain



# Goresgyniad Araf

Dechreodd y Rhufeiniaid oresgyn Prydain yn y flwyddyn **OC 43**. Dechreuodd goresgyniad Cymru yn **OC 47**. Wnaeth llwythau Cymru ddim ildio'n hawdd. Fe gymrodd hi tan **OC 78** i'r Rhufeinaid oresgyn Cymru gyfan.



Mae Cymru wedi bod yn lle anodd ei oresgyn erioed. Pan gyrhaeddodd y Rhufeiniaid, roedd mwy na rhyfelwyr ffyrnig i ddelio â nhw.

Mae Cymru'n llawn **mynyddoedd**. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n anodd i'r Rhufeiniaid deithio'n gyflym drwy Gymru.




Defnyddiai rhyfelwyr Cymru ddulliau ymladd **guerrilla**. Yn lle un brwydr fawr, bydden nhw'n trefnu sawl ymosodiad bach. Yn aml bydden nhw'n ymosod ac yn dianc yn gyflym i ddiogelwch y mynyddoedd a'r coedwigoedd.

# Llinell Amser Goresgyniad Rhufain

OC 40

Y Rhufeiniaid yn dechrau'r goresgyniad drwy lanio yn ne-ddwyrain Prydain. OC 43

Y Rhufeiniaid yn dechrau goresgyniad Cymru drwy guro'r Deceangli. OC 47-48

OC 50

Caradog yn cael ei drechu a'i anfon i Rufain. OC 51

Y Silwriaid yn trechu lleng o filwyr Rhufain. OC 52

Y Rhufeiniaid yn adeiladu caer ym Mrynbuga. Tua OC 55

OC 60

Y Rhufeinaiid yn goesgyn Ynys Môn a dinistrio coedwig sanctaidd y Derwyddon. OC 60 neu 61

Gwrthryfel Buddug Byddin Rhufain yn gadael y rhan fwyaf o Gymru. OC 60 neu 61

OC 70

Trechu'r Silwriaid. Adeiladu caer lengol yng Nghaerllion. OC 73 - 75

Y Rhufeiniaid yn trechu'r Ordoficiaid a gorffen gorsegyniad Cymru. OC 78

OC 80

# Caradog

**Caradog** oedd arweinydd llwyth y **Catuvellauni** o dde-ddwyrain Prydain. Dywedodd yr awdur Rhufeinig, Dio, fod Caradog yn goresgyn tiroedd llwythau eraill. Dywedodd fod y Rhufeiniaid wedi cael eu gwahodd i brydain yn **OC 43** gan arweinydd llwyth yr Atrebates i ymladd yn erbyn Caradog. Dyma oedd esgus y Rhufeiniaid dros oresgyn Prydain.

Arweiniodd Caradog frwydr Prydain yn erbyn goresgyniad Rhufain. Ar ôl ennill brwydrau yn y dwyrain, aeth Caradog i Gymru. Rhwng **OC 48 a 51** arweiniodd Caradog y **Silwriaid** a'r **Ordofigiaid** yn erbyn y Rhufeiniaid. Yn **OC 51** dyma nhw'n colli brwydr yn erbyn y Rhufeiniaid a cafodd teulu Caradog eu dal. Dihangodd Caradog a mynd at lwyth y **Brigantes** yng ngogledd Prydain.

Cafodd ei ddal a'i roi i'r Rhufeiniaid gan **Cartimandua**, brenhines y Brigantes.




# Ymlaen â'r Frwydr...

Wnaeth y **Silwriaid** a'r **Ordofigiaid** ddim rhoi'r ffidil yn y to ar ôl i Caradog gael ei ddal.

Fe drechodd y **Silwriaid** un o **lengoedd Rhufain** yn ***OC 52***. Grŵp o **5,500 o filwyr** oedd lleng. Roedd llengfilwr yn ddinesydd Rhufeinig.

Disgrifiodd Tacitus sut yr enillodd y Silwriaid lawer o frwydrau bach gyda thactegau **guerrilla**. Bydden nhw'n ymosod ar y Rhufeiniaid mewn coedwigoedd a chorsydd. Roedd hyn yn anfantais i filwyr Rhufain, oedd yn ymladd yn well ar dir agored. Dywedodd Tacitus fod llywodarethwr Rhufeinig Prydain wedi marw o straen wrth geisio delio â'r Silwriaid.

Yn OC 52 penododd Rhufain lywodraethwr newydd ar Brydain wnaeth atal ymosodiadau'r Silwriaid. Cyn i'r Rhufeinaid orffen goresgyn Cymru dechruodd llwyth y **Brigantes** wrthryfel. Teithiodd llengfilwyr Rhufain i ogledd Prydain i ddelio â'r gwrthryfel.



# Diwedd y Derwyddon

Yn **OC 58** daeth y cadfridog **Suetonius Paulinus** yn llywodraethwr Prydain. Roedd Suetonius am ddangos ei fod yn arweinydd cryf a llwyddiannus, felly dechreuodd oresgyn Cymru. Dywedodd Tacitus i Suetonius gael dwy flwyddyn lwyddiannus yn ymladd llwythau Cymru.

Yn **OC 60 neu 61** pendefynodd Suetonius ymosod ar ynys **Mona**. Roedd Mona yn bwysig i'r Brythoniaid gan taw dyma ble oedd coedwig sanctaidd y derwyddon.

Roedd Suetonius am ddinistrio'r derwyddon am eu bod yn annog y Brythoniaid i ymladd yn erbyn goresgyniad Rhufain.

Roedd yr ymosodiad yn llwyddiant, ac fe ddinistriodd y Rhufeiniaid y goedwig sanctaidd. Ond ar yr un pryd, roedd gwrthryfel arall yn dechrau yn nwyrain Prydain...



# Buddug

**Buddug** oedd arweinydd llwyth yr **Iceni** o ddwyrain Prydain. Yn **OC 60 neu 61** arweiniodd Buddug wrthryfel yn erbyn y Rhufeiniaid. Dinistriodd y Brythoniaid **dair dinas Rufeinig** a threchu **lleng o filwyr Rhufain**. Mae tystiolaeth archaeolegol o losgi'r dinasoedd hyn.

Symudodd Suetonius ei filwyr o Gymru i ymladd Buddug. Yn y frwydr olaf, roedd mwy o ryfelwyr gan y Brythoniaid na'r Rhufeiniaid, ond y Rhufeiniaid wnaeth ennill. Dywedodd Tacitus fod Buddug wedi gwenwyno'i hun fel na fyddai'n cael ei dal.

Rhoddodd gwrthryfel Buddug fraw i'r Rhufeiniaid, a wnaethon nhw ddim ceisio gorffen goresgyn Cymru tan **OC 73**.



# Goresgyn Cymru

Yn **OC 73** roedd llywodraethwr Rhufeinig newydd ym Mhrydain o'r enw **Julius Frontinus**. Fe ddechreuodd oresgyn Cymru eto. Rhwng **OC 73 a 74** fe drechodd lwyth y **Silwriaid** a gwthio ymhellach i Gymru.

Yn **OC 78** gorffenwyd goresgyniad Cymru gan y llywodraethwr newydd, Agricola. Fe drechodd yr **Ordofigiaid** a goresgyn Mona unwaith eto.

Adeiladodd y Rhufeinaid gaerau ar draws Cymru i reoli'r llwythau. Roedd de Cymru yn cael ei rheoli o'r gaer yng Nghaerllion. Roedd gogledd Cymru'n cael ei rheoli o Gaer.



# Caethweision

Os ydych chi'n **gaethwas** dydych chi **ddim yn ddyn rhydd**. Mae rhywun arall yn **berchennog** arnoch chi. Mae'n rhaid i chi wneud popeth mae nhw'n ei ddweud a fyddwch chi ddim yn cael eich talu.

Pan fyddai'r Rhufeiniaid yn ennill brwydrau, bydden nhw'n aml yn **dal** eu gelynion a'u gwerthu fel caethweision. Gwerthwyd miloedd o Frythoniaid fel caethweision ar draws Ymerodraeth Rhufain.






Cerfiad carreg Rhufeinig o'r gaer yng Nghaerllion. Mae'n dangos Brython wedi'i ddal yn plygu ymlaen, gyda'i ddwylo wedi clymu tu ôl ei gefn mwy na thebyg. Efallai bod hwn yn gerfiad o un o ryfelwyr y Silwriaid ar ôl cael ei ddal.



Cadwyn caethwas haearn o ddiwedd Oes yr Haearn neu gyfnod y Rhufeiniaid. O Llyn Cerrig Bach, Ynys Môn.



Actorion ail-greu yn gwisgo replica o gadwyn caethwas o Lyn Cerrig Bach.

# Gweithio gyda'r Rhufeiniaid

Wnaeth pob Brython ddim ymladd y Rhufeiniaid. Roedd arweinwyr llwythau yn ne-ddwyrain Prydain yn masnachu â'r Rhufeiniaid cyn y goresgyniad. Penderfynodd sawl arweinydd ildio pan gyrhaeddodd y Rhufeiniaid. Roedd rhai hyd yn oed yn helpu'r Rhufeiniaid yn erbyn y llwythau eraill.

Ar ôl i'r Rhufeiniaid adeiladu eu caerau, tyfodd trefi ar y cyrion. Symudodd rhai Brythoniaid i'r trefi yma i fasnachu gyda milwyr Rhufain.






# Rhufeinig-Brydeinig

Wnaeth arferion Oes yr Haearn ddim dod i ben yn syth pan ddaeth Cymru yn rhan o Ymerodraeth Rhufain. Roedd llawer o bobl cefn gwlad yn byw mewn tai crwn drwy gydol cyfnod y Rhufeiniaid.

Cymysgodd celf Rhufeinig a Brythonig gan greu arddull newydd. Adeiladwyd temlau newydd ar gyfer cymysgedd o dduwiau Rhufeinig a Cheltaidd, fel y deml i Mars-Ocelus yng Nghaerwent. **Diwylliant Rhufeinig-Brydeinig** yw'r cymysgedd diwylliannol hwn.



Sosban a gogor efydd Rhufeinig-Brydeinig o Wersyll Coygan, Talacharn, Sir Gaerfyrddin. Gwrthrychau Rhufeinig yw'r rhain wedi addurno â thrisgell Celtaidd.



Tua OC 120 rhoddodd y Rhufeiniaid ychydig o reolaeth yn ôl i'r Silwriaid drwy adeiladu prifddinas newydd o'r enw **Venta Silurum**. Caerwent yw'r enw arni heddiw.



Ffitiadau bwced efydd siâp pen ychen Rhufeinig-Brydeinig, o'r Gogarth Fach, Conwy.



Gwrthrych efydd Rhufeinig-Brydeinig o harnais o gaer Rufeinig Aberhonddu. Yng Nghasgliadau Amgueddfa y Gaer.



Drych efydd o ddiwedd Oes yr Haearn neu Rhufeinig-Brydeinig. O gaer Rufeinig Aberhonddu.



Tancard pren gyda dolenni efydd Rhufeinig-Brydeinig neu o ddiwedd Oes yr Haearn. O Langstone, Casnewydd.

# Amgueddfa Cymru



national museum wales
amgueddfa cymru

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

# Oes yr Haearn yn Sain Ffagan





## Bryn Eryr - Fferm o Oes yr Haearn

Dewch i ddarganfod Oes yr Haearn. Dysgwch am fywyd bob dydd ein cyndeidiau, a sut fydden nhw'n adeiladu eu tai crwn. Rhowch gynnig ar wehyddu a malu grawn.

## Bedd Rhyfelwr Celtaidd

Sut ydyn ni'n gwybod cymaint am ein cyndeidiau filoedd o flynyddoedd yn ôl? Dadorchuddiwch gyfrinachau'r gorffennol mewn gweithdy archaeoleg rhyngweithiol yn edrych ar fedd rhyfelwr o Oes yr Haearn.

https://amgueddfa.cymru/sainffagan/addysg/ca2/

# Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru

Dysgwch fwy am fywyd yng Nghymru yn ystod cyfnod y Rhufeiniaid drwy ymweld ag Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru. Mae'r Amgueddfa yng nghanol caer Rufeinig Caerllion!




**Rhaid i bob ysgol a grŵp archebu ymlaen llaw, hyd yn oed os na fyddwch chi'n archebu gweithdy.**

**Ffoniwch (029) 2057 3546 i gadw lle.**

https://amgueddfa.cymru/rufeinig/addysg/

# Byddwch yn greadigol gyda chasgliadau'r Amgueddfa!




Chwiliwch am dros hanner miliwn o wrthrychau a gwybodaeth ddibynadwy i greu eich projectau digidol!

Datblygwch eich cymwyseddau digidol trwy gynllunio a chwilio casgliadau digidol yr Amgueddfa.

https://amgueddfa.cymru/casgliadau/arlein/

# Ychwanegwch eich stori chi at hanes Cymru!

**Casgliad y Werin Cymru**
**People's Collection Wales**






Darganfyddwch ffotograffau, dogfennau a straeon gwych am hanes a diwylliant Cymru.

Chwiliwch ar Hwb neu wefan Casgliad y Werin

[www.casgliadywerin.cymru](http://www.casgliadywerin.cymru)



Uwchlwythwch brojectau eich dosbarth i'r wefan a datblygu sgiliau digidol allweddol sy'n gysylltiedig a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol.



Defnyddiwch y cynlluniau gwers i ddeall metadata a hawlfraint.

